



Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

10/11/2016

Annwyl Gadeirydd

Adolygiad o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru: Gweithredu

Diolch am y cyfle i gyfrannu at waith craffu'r pwyllgor ar weithrediad argymhellion Donaldson.

Rwyf yn croesawu'r argymhellion a gynigiwyd yn adroddiad yr Athro Donaldson mewn perthynas â'r Gymraeg. Credaf y dylai gweithredu'r argymhellion hynny sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gadael yr ysgol yn medru cyfathrebu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hynny'n gam mawr tuag at gyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Wrth graffu ar weithrediad yr argymhellion, hoffwn annog y pwyllgor i gasglu tystiolaeth ynghylch gweithrediad argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg. Nid yw'n amlwg ar hyn o bryd pa waith sy'n digwydd er mwyn cyflawni'r argymhellion hynny. Deallaf bod ysgolion cyfrwng Cymraeg bellach yn rhan o'r rhwydwaith o ysgolion arloesi sy'n rhannol gyfrifol am ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Mae hynny i'w groesawu wrth reswm, ond nid yw'r gwaith cynllunio ar gyfer cyflawni argymhellion mewn perthynas â'r Gymraeg yn amlwg.

Rwyf yn aelod o Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Cwricwlwm i Gymru a sefydlwyd gan Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith cynllunio. Hyd yma ni roddwyd sylw i'r Gymraeg fel rhan o waith y grŵp hwnnw. Rwyf i a fy swyddogion wedi mynychu rhai digwyddiadau yn ymwneud â gweithrediad argymhellion Donaldson ond prin oedd y ffocws ar y Gymraeg yn y digwyddiadau hynny. Mae rhai sydd â diddordeb yn y Gymraeg mewn addysg wedi cysylltu â mi i fynegi pryder nad oes sylw amlwg i'r Gymraeg yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd ar hyn o bryd. Ar sail hyn, rwy'n pryderu nad oes ystyriaeth ddigonol i'r Gymraeg o fewn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm newydd. Hoffwn annog y pwyllgor i gasglu tystiolaeth ynghylch hynny fel rhan o'r gwaith craffu hwn.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Deallaf bod Llywodraeth Cymru wedi hysbysebu swydd Ymgynghorydd ar y Gymraeg mewn addysg yn ddiweddar, a bod cyfrifoldebau'r swydd honno'n cynnwys cynllunio ar gyfer y Gymraeg o fewn y cwricwlwm newydd. Hyderaf y bydd hynny'n arwain at sylw cynyddol i'r Gymraeg dros y misoedd nesaf.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg